

Covid-19: Cadwch eich hun, eich cydweithwyr a'ch cleifion yn ddiogel

Gwybodaeth i staff am bellhau corfforol

Rydych chi i gyd yn gwneud swydd wych yn gofalu am gleifion a theluoedd ar yr adeg hon. Mae angen i ni barhau i ofalu amdanom ein hunain a chadw'n gilydd yn ddiogel. Un o'r pethau pwysig y gallwn ni ei wneud yw glynu wrth ganllawiau cadw pellter corfforol lle bynnag y gallwn, ac mae hyn yn bwysig i bawb, a hynny yn y gwaith a gartref.

Rydym yn falch o weld llawer ohonoch yn dilyn y canllawiau cadw pellter corfforol yn barod.

Trwy ddilyn y canllawiau hyn, gallwch helpu i amddiffyn eich hun, eich cydweithwyr, cleifion ac ymwelwyr â'n safleoedd. Gall y camau hyn leihau'r posibilrwydd o ledaenu Covid-19 rhwng pobl.

Chi yw wyneb y Bwrdd Iechyd Lleol, a gallwch fod yn esiamplau i staff a chleifion eraill. Mae cadw eich pellter mewn ardaloedd cyhoeddus yn dangos i eraill eich bod yn dilyn y cyngor a'ch bod yn deall pwysigrwydd gwneud hynny. Bydd hefyd yn helpu i leihau eich cysylltiad posibl eich hun.


Rydym yn deall na allai cadw eich pellter fod yn bosibl mewn ardaloedd clinigol. Fodd bynnag, wrth symud o gwmpas yr ysbyty neu swyddfeydd, ceisiwch gadw 2 fetr ar wahân gymaint ag sy'n bosibl.

Mae 2 fetr tua hyd gwely dwbl



Ceisiwch gadw 2 fetr ar wahân pan yn:

- Cerdded gyda chydweithwyr
- Siarad â chydweithwyr (gan gynnwys wrth eu desg)
- Mewn cyfarfodydd
- Mewn ardaloedd cegin
- Yn ystod egwylliau ac amser cinio (eisteddwrch ar wahân os ydych yn defnyddio ardaloedd eistedd, gan gynnwys y tu allan)
- Ciwio am fwyd, diodydd neu bethau eraill i'w prynu
- Gweithio wrth ddesg



Gall y camau hyn leihau'r posibilrwydd o ledaenu Covid-19 rhwng pobl

Mae pellter yn ein cryfhau

